YSGOL BRYNREFAIL

DIRPRWY BENNAETH

Braf iawn oedd cael croesawu Mrs. Ellen A. Williams i'r Ysgol ar gychwyn y tymor hwn fel ein Dirprwy Bennaeth newydd. Mae hi yn byw gyda'i theulu ger Glasinfryn. Bu Mrs. Williams yn gweithio yn Ysgol Gyfun Llangefni am 21 o flynyddoedd cyn dod atom. Roedd hi yno yn wreiddiol fel Pennaeth Ieithoedd Tramor ac yna, am yr 17 mlynedd diwethaf, fel Dirprwy Bennaeth yr ysgol honno. Yn ogystal â'i phrofiad helaeth yn Ysgol Gyfun Llangefni, mae Mrs. Williams hefyd yn brofiadol iawn fel arolygydd ysgolion uwchradd ac mae hi wedi treulio cyfnod llwyddiannus ar secondiad gyda chwmni Cynnal - y gwasanaeth ymgynghorol rhanbarthol i addysg. Rydym yn hyderus y bydd hi yn gaffaeliad mawr i Ysgol Brynrefail. Croeso cynnes iawn iddi i'r ysgol a'i chymuned a phob dymuniad da iddi wrth ei gwaith yma.

Mr Eifion Jones, Pennaeth